# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 08-06 (p2)

### Dyddiad: 25 Hydref 2006
### Amser: 09.00 - 12.25
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1 a 2, Senedd
### Teitl: Adroddiad y Gweinidog

#### Diben

1. Darparu’r newyddion diweddaraf am amrywiaeth o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

#### Argymhelliad

2. Bod aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

#### Cefndir

3. Cyfarfu’r Pwyllgor diwethaf ar 27 Medi 2006. Mae’r papur hwn yn rhoi’r newyddion diweddaraf.

#### Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

#### 4 Hydref 2006 Lansio Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru – Cymru o Blaid Affrica

Bûm yn lansiad Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru – Cymru o Blaid Affrica, ac ymysg y rhai a oedd yn bresennol oedd Hilary Benn, Ysgrifennydd Gwladol Datblygu Rhyngwladol a Kandeh Yumkella, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Datblygu Diwydiannol y Cenhedloedd Unedig (UNIDO).

#### 5 Hydref 2006 Ymweliad Dirprwy Weinidog Tramor y Weriniaeth Tsiec, Mr Pavel Svoboda a’i Ardderchowgrwydd Jan Winkler, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec yn y DU

Cyfarfûm â Dirprwy Weinidog Tramor y Weriniaeth Tsiec, Mr Pavel Svoboda a’i Ardderchowgrwydd, Jan Winkler, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec i’r DU, cyn derbyniad, ar wahoddiad y Llysgennad yn adeilad y Senedd i ddathlu agoriad swyddfa Is-gennad y Weriniaeth Tsiec yng Nghaerdydd. Mr Peter Ferda a benodwyd yn Is-gennad Anrhydeddus i’r Weriniaeth Tsiec yng Nghymru yn ddiweddar fydd yn rhedeg y swyddfa.

## 12 Hydref 2006 Ymweliad João Roberto, Is-gennad Anrhydeddus i Gabo Verde yn y DU ac aelodau Cymdeithas Cabo Verde

Cyfarfûm â Mr João Roberto, Is-gennad Anrhydeddus i Gabo Verde yn y DU ac aelodau Cymdeithas Cabo Verde, i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cysylltiadau twristiaeth, diwylliannol a diplomyddol rhwng Cabo Verde a Chymru yng ngoleuni'r hanes a rennir gennym. Roedd aelod o'r Soroptimyddion Rhyngwladol hefyd yn bresennol, sy'n darparu ymddiriedolaeth addysgol fechan ar ynys Sao Vicente er mwyn galluogi nifer gyfyngedig o fyfyrwragedd i fynychu prifysgol.

## 20 Hydref 2006 Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd

Byddaf yn cynnal pumed cyfarfod Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd ar y pwnc Cymru: Swyddogaeth y Rhanbarthau a'r Ardaloedd Lleol yn Ewrop" yn swyddfeydd ECM2 ym Margam. Cadeirydd y dydd fydd Des Clifford, a bydd y prif siaradwyr yn cynnwys y Cynghorydd W J Williams (Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Eluned Morgan ASE, Dr Kurt Gaissert (swyddfa UE Baden-Württemberg) ac Andy Klom (Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru).

## 23 Hydref 2006 Ymweliad Peter Mandelson, Comisiynydd Ewrop dros Fasnach Allanol

Byddaf yn cwrdd â Peter Mandelson, Comisiynydd Ewrop dros Fasnach Allanol yn ystod ei ymweliad undydd â Chymru. Bydd y pynciau trafod yn cynnwys masnach ryngwladol, globaleiddio, Adenda Datblygu Doha a chyfeiriad yr Undeb Ewropeaidd i'r dyfodol.

## Materion Eraill

## Y Cydgyngor Gweinidogion (Ewrop)

Cyfarfu JMC(E) ddydd Mawrth 10 Hydref. Nid oeddwn yn gallu mynychu ond bu Des Clifford yno a darperir adroddiad yn nes ymlaen.

## Cronfeydd Strwythurol

Mae'r llywodraeth ar fin gorffen cytuno ar Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU (NSRF), y ddogfen lefel uchel a fydd yn cyfarwyddo'r gwaith o roi'r Cronfeydd Strwythurol ar waith ledled y DU. Bydd yr NSRF yn cael ei gyflwyno i'r senedd a hefyd yn cynnwys y dyraniadau ar gyfer y rhaglenni Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth.

## Adolygiad o Ardaloedd a Gynorthwyir y DU

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chanfyddiadau yn dilyn yr Adolygiad o Ardaloedd a Gynorthwyir ar 10 Hydref 2006. Mae'r drafft terfynol o fap Ardaloedd a Gynorthwyir y DU bellach wedi cael ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w gymeradwyo. Disgwylir y bydd y broses gymeradwyo'n para tan o leiaf ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r map newydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2007.

Ymatebodd amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru i ymgynghoriad diweddar yr Adran Masnach a Diwydiant ar y map drafft ac yn dilyn hynny, addaswyd y map ar gyfer dwyrain Cymru i gymryd y safbwyntiau a fynegwyd i ystyriaeth. Mae map Ardaloedd a Gynorthwyir Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Yn sgil lleihad sylweddol i'r boblogaeth y caiff y DU eu cynnwys yn yr ardaloedd hyn, mae'r map arfaethedig yn ganlyniad arbennig o dda i Gymru. Mae dosbarthiad yr ardaloedd Erthygl 87(3)c yn nwyrain Cymru'n golygu na fu unrhyw leihad yn y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yng Nghymru.

Fodd bynnag, bu'n rhaid cydymffurfio â meini prawf cymhwysedd newydd y Comisiwn Ewropeaidd ac mae hyn, ynghyd â'r angen i ardaloedd fynd trwy fecanwaith hidlo cymhwysedd y DU (a ddyfeisiwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant) yn llwyddiannus, wedi gorfodi newid i'r ardaloedd Erthygl 87(3)c yn nwyrain Cymru. Cyfaddawd yw'r map a luniwyd yn sgil hyn felly, gyda nifer o ardaloedd sy'n rhan o'r ardaloedd ar hyn o bryd yn diflannu o'r map. Fodd bynnag, nid yw'r map yn cynnwys llawer o leoliadau pwysicaf dwyrain Cymru o safbwynt strategol.

## Ehangu – y diweddaraf

Mae proses ymaelodi Bwlgaria a Rwmania yn dod i ben gyda'r ddwy wlad yn debygol o ymaelodi ar 1 Ionawr 2007. Mae'r UE wedi lasio trafodaethau ymaelodi swyddogol gyda Chroatia a Thwrci yn y Cyngor Materion Cyffredinol yn Lwcsembwrg ar 3 Hydref 2005 ac ym mis Rhagfyr 2005, penderfynodd y Cyngor Cyffredinol roi statws gwlad sydd wedi gwneud cais i gyn-weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia. Mae holl wledydd Gorllewin y Balcanau yn ddarpar ymgeiswyr.

## Bwlgaria a Rwmania

Ym mis Rhagfyr 2004, daeth y Comisiwn Ewropeaidd i ben yn ffurfiol â thrafodaethau ymaelodi gyda Bwlgaria a Rwmania. O ganlyniad, ar 25 Ebrill 2005, arwyddodd Bwlgaria a Rwmania y Cytuniad Ymaelodi. Roddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei adroddiad monitro terfynol ar baratoadau Rwmania a Bwlgaria ar gyfer ymaelodi ar 26 Medi 2006. Mae'r Comisiwn yn argymell eu bod yn ymaelodi ar 1 Ionawr 2007, (yn amodol ar Aelod-wladwriaethau yn cwblhau gweithdrefnau cadarnhau). Bydd hyn yn cwblhau cam ymaelodi 2004.

Mae adroddiad y Comisiwn yn amlinellu rhai camau gweithredu yn dilyn ymaelodi:- a) diogelu'r farchnad fewnol (ar faterion amaethyddiaeth, ac ar gyfer Bwlgaria, diogelwch hedfan), a b) sicrhau adroddiadau parhaus ar rai meysydd yn ymwneud â Chyfiawnder a Materion Cartref (troseddu cyfundrefnol, llygredd a swyddogaeth y farnwriaeth), trwy ddulliau monitro ar ôl ymaelodi.

Mae llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio mesurau trosiannol yn y Cytuniad Ymaelodi sy'n caniatáu cyfyngu ar fynediad preswylwyr Rwmania a Bwlgaria i farchnad lafur y DU. Mae hyn yn golygu na fydd y DU yn ymestyn y Cynllun Cofrestru Gweithwyr sydd ar waith i breswylwyr A8 i Fwlgaria a Rwmania pan fyddant yn ymaelodi.

## Croatia

Cychwynnodd Croatia drafodaethau i ymuno â'r UE ar 3 Hydref 2005, yn sgil penderfyniad ei bod yn cydweithio'n llawn â Thribiwnlys Troseddol Rhyngwladol ar gyfer yr hen Iwgoslafia (ICTY). Ar 8 Rhagfyr, arestiwyd yr un olaf i'w gyhuddo gan y Tribiwnlys yn Croatia, Ante Gotovina a'i drosglwyddo'r i'r Hague i'w roi ar brawf ar gyhuddiad o droseddau yn erbyn dynoliaeth. Bydd y Comisiwn yn parhau i sgrinio eu deddfwriaeth i sicrhau eu bod yn gydnaws ag acquis communautaire yr UE (deddfwriaeth gyfan Ewrop) a disgwylir adroddiad blynyddol yn yr hydref.

## Twrci

Cychwynnodd Twrci drafodaethau gyda'r UE ar yr un diwrnod â Croatia. Mae trafodaethau ymaelodi yn parhau fel yn achos Croatia a disgwylir adroddiad ar gynnydd yn yr hydref.

## Cyn-weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia a Gorllewin y Balcanau

Cafodd Macedonia statws ymgeisydd yng Nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2005. Nid yw trafodaethau wedi cychwyn hyd yma. Mae gwladwriaethau eraill yng Ngorllewin y Balcanau (Serbia, Montenegro, Bosnia a Hertsegovina ac Albania) hefyd yn ddarpar ymgeiswyr yr UE yn y dyfodol. Hyd yma, nid oes un o'r gwledydd hyn wedi cyflwyno cais am statws ymgeisydd. Fodd bynnag, cychwynnodd Serbia a Montenegro, a Bosnia a Hertsegovina, drafodaethau ar Gytundebau Sefydlogi a Chysylltu. Yng ngoleuni'r refferendwm ym Montenegro a'r datganiad o annibyniaeth, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei fwriad i gyflwyno cynnig i'r Cyngor am fandad trafod Cytundebau Sefydlogi a Chysylltu newydd ar gyfer trafodaethau gyda Gweriniaeth Montenegro. Mae'r Broses Sefydlogi a Chysylltu wedi'i llunio i gynorthwyo gwledydd yng Ngorllewin y Balcanau i wneud cynnydd tuag at fodloni safonau'r UE.

## Pwynt Gweithredu yn Deillio o Gyfarfod Blaenorol

Yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2006, cytunodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i ddarparu gwybodaeth ar nifer y myfyrwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru ar hyn o bryd.

Ym mis Mehefin 2006, dywedwyd bod canolfannau peilot Bac Cymru wedi cofrestru 3332 o fyfyrwyr ôl-16 ar lefel Ganolig ac Uwch. Mae'r canolfannau yn amcangyfrif y bydd 5604 o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyfer Bac Cymru ôl-16 Canolig ac Uwch ym mis Medi 2006.

Hefyd, o fis Medi 2006, mae'r cynllun peilot wedi'i ymestyn i gynnwys Bac Cymru Lefel Sylfaenol a lefel Ganolig cyn 16 oed. Mae canolfannau yn amcangyfrif y bydd 1348 wedi'u cofrestru ar gyfer yr estyniad hwn i'r cynllun peilot ym mis Medi 2006. Bydd CBAC yn cadarnhau amcangyfrifon mis Medi ddiwedd mis Hydref.

## Newyddion Ewropeaidd

Etholiadau Sweden – yn dilyn etholiad agos iawn yn Sweden cipiwyd y fuddugoliaeth i'r wrthblaid dan arweiniad Fredrik Reinfeldt. Mae'r canlyniad yn rhoi terfyn ar 12 mlynedd o reolaeth gan y Democratiaid Cymdeithasol ac yn golygu y bydd y Prif Weinidog, Goran Persson yn ymddiswyddo.

Etholiadau Awstria - mae’r wrthblaid, y Democratiaid Cymdeithasol, er syndod mawr wedi ennill buddugoliaeth yn yr etholiadau yn ddiweddar, gan drechu plaid y Bobl y Canghellor Wolfgang Schuessel. Roedd hawl gan dros chwe miliwn o etholwyr Awstria bleidleisio ar gyfer y senedd 183 sedd. Rhagwelir nawr y bydd trafodaethau ar y gweill i ffurfio llywodraeth clymblaid, a’r Canghellor newydd yn ôl bob tebyg fydd Alfred Gusenbauer o’r Democratiaid Cymdeithasol.

Cyllid Gwyddoniaeth yr UE - mae’r Cyngor Ewropeaidd wedi cyrraedd sefyllfa gyffredin ar y 7fed Rhaglen Fframwaith sef cynllun £34 biliwn gyda’r nod o atal nifer yr ymchwilwyr Ewropeaidd sy’n gadael maes gwyddoniaeth. Bydd Senedd Ewrop yn ystyried y Rhaglen, gyda’r bwriad o ddechrau erbyn mis Ionawr 2007.

Llywodraeth y Weriniaeth Tsiec - mae llywodraeth leiafrifol y weriniaeth Tsiec wedi colli pleidlais o hyder a bydd yn rhaid iddi bellach ymddiswyddo. Dim ond am 30 niwrnod yr oedd wedi bod mewn grym. Mae’r Weriniaeth Tsiec wedi gweld anghytundeb gwleidyddol llwyr ers i’r etholiadau ym mis Mehefin rannu’r senedd yn gyfartal bron rhwng pleidiau gwleidyddol y dde a’r chwith.

Twrci - ar 27 Medi pasiodd Senedd Ewrop adroddiad nad yw’n rhwymol a oedd yn feirniadol iawn o gynnydd Twrci tuag at ymuno â’r UE. Roedd yr adroddiad yn beirniadu rhannau o god cosbi Twrci sydd wedi arwain at roi awduron ar brawf ar gyhuddiadau o "ddirmygu Twrci" ond cafodd cymal yn galw am gydnabod hil-laddiad yr Armeniaid fel rhag-amod aelodaeth ei ollwng. Galwodd yr ASE ar Twrci hefyd i gydnabod Gweriniaeth Cyprus a chodi ei gwaharddiad ar longau ac awyrennau Cyprus. Mabwysiadwyd yr adroddiad gan 429 o bleidleisiau o blaid a 71 yn erbyn gyda 125 yn ymatal.

Tollau’r UE ar fewnforio esgidiau lledr - bydd esgidiau lledr o Tsieina a Fietnam sy’n cael eu mewnforio yn parhau i wynebu tollau cosbol am 2 flynedd arall. Bydd mewnforion o Tsieina yn wynebau tollau o 16.5%, a mewnforion o Fietnam yn wynebu treth o 10%. Cymerwyd y mesurau wrth i nifer yr esgidiau lledr sy’n cael eu mewnforio o Tsieina a Fietnam godi’n arw dros y pum mlynedd ddiwethaf ac wrth i wneuthurwyr esgidiau yn Ewrop gwyno bod cystadleuwyr o Tsieina a Fietnam yn cael cymorthdaliadau gan y llywodraeth sy’n eu galluogi i werthu esgidiau dramor yn rhatach na’r gost o’u gwneud.

Cyfraddau llog Ardal yr Ewro - mae cyfraddau llog ledled ardal yr ewro wedi codi chwarter pwynt eto i 3.25% wrth i Fanc Canolog Ewrop (ECB) geisio cadw chwyddiant dan reolaeth. Mae cyfraddau wedi codi bum gwaith ers mis Rhagfyr 2005 i gadw i fyny â ffyniant sawl un o economïau mwyaf Ewrop.

Polisi masnach yr UE - mae’r UE yn ceisio cael cyfres o gytundebau masnach rydd gyda gwledydd Asia sy’n tyfu’n gyflym mewn ymdrech i roi hwb i natur gystadleuol Ewrop trwy wella mynediad i farchnadoedd deniadol sy’n prysur ehangu. Yn dilyn perfformiad cadarn economi’r UD a thwf Tsieina ac India, nod y Comisiwn Ewropeaidd yw sicrhau bod natur gystadleuol well a chreu swyddi yn rhan annatod o’i bolisi masnach.

Etholiadau Latfia - Clymblaid lywodraethol Latfia yw’r weinyddiaeth gyntaf i gael ei hail-ethol ers iddi dorri’n rhydd oddi wrth yr Undeb Sofietaidd ym 1991. Enillodd y bloc llywodraethu tair plaid

dan arweiniad y Prif Weinidog Aigars Kalvitis, 51 o’r 100 sedd yn y Senedd. Yr etholiadau oedd y cyntaf ers i Latfia ymuno â’r Undeb Ewropeaidd a Nato ddwy flynedd yn ôl.

**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog Cymru**

## EEAC Flirst Minister's Report

| Date | Assembly Minister/ Official/ Division | Event | Objectives | Outcomes |
|---|---|---|---|---|
| 25 September 2006 | Minister for Assembly Business, Equalities and Children | Meeting with Raun Kaufman, international speaker on the treatment of autism. | Information gathering/ courtesy meeting. Mr Kaufman is currently on a lecture tour of the UK, talking about the methods of education that were employed during his upbringing, and which have enabled him to overcome many of the limitations caused by autism. | Mr Kaufman shared his experience of overcoming autism. |
| 4 October 2006 | First Minister | Wales for Africa: Launch of Welsh International Sustainable Development Framework . | To launch the Framework and celebrate the contribution Wales is already making to International Development and Disaster Relief. | Successful event covered by media. Links between Welsh Assembly Government and the Department for International Development strengthened. MOU between University of Wales, Aberystwyth and UNIDO signed at the event. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 October 2006 | First Minister | Visit of the Deputy Foreign Minister of the Czech Republic Mr Pavel Svoboda and His Excellency Jan Winkler, the Czech Republic Ambassador to the UK. | To meet the Czech Deputy Foreign Minister and the Ambassador to the UK, on the occasion of the opening of a Czech consular office in Cardiff. | The opening of the new Consular Office received wide coverage in the local press and was well attended. The meeting provided an opportunity to welcome Mr Svoboda to Wales and to discuss co-operation between the Czech Republic and Wales. |
| 6 October 2006 | Minister for Environment, Planning and Countryside, Norma Barry - FMDD | Agri Food Fair, Montpellier, France | To meet with the Director of the research centre and also observe the facilities that are based on innovative approaches to agri-food development.<br>To witness successful models, as this can help build upon the foundations and further develop the existing agri-food networks in Wales.<br><br>To highlight to the opportunity for Wales to try and establish European and International benchmarks in agri-food excellence. This, in turn, would offer the strategic co-ordination that is required for a dynamic market environment and also help to develop indigenous business and function as a portal for inward investment within Wales, the UK and beyond. | The objectives, set out in detail, were all achieved |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12 October 2006 | First Minister | Meeting with representatives of the Cape Verde Society & João Roberto, Honorary Consul | To discuss the possibilities of establishing links between Wales and Cape Verde in view of our historical association. | Various suggestions for cultural, educational and tourism links were made. Officials will meet again with the Society to explore the feasibility of these suggestions. |
| 19 & 20 October 2006 | Minister for Education Lifelong Learning and Skills | EARLALL Board Meeting and EARLALL General Assembly | The Minister will be attending both meetings in her capacity as Vice President of EARLALL. Membership of EARLALL provides a valuable opportunity for European regions to work together on strategies and programmes for lifelong learning. Wales will contribute two papers to this meeting, one updating members on key EU policy developments aimed at influencing future priorities and activity of the Association, and one detailing Entrepreneurship activity in Wales. There will also be presentations by a Commission official | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | regarding the new lifelong learning programmes to aid members understanding of and ultimate engagement in the programmes. The Association will also be seeking to progress work aimed at increasing the mobility of learners and practitioners of EARLALL regions. |
| 20 October 2006 | First Minister | Wales Forum on European Affairs, Margam, South Wales | To discuss "Wales: The Role of the Regions and Localities in Europe" |
| 23 October 2006 | First Minister | Meeting with Peter Mandelson, European Commissioner for External Trade | To discuss, during his one-day visit to Wales, international trade, globalisation, the Doha Development Agenda and the future direction of the European Union. |